TORFAEN COUNTY BOROUGH | BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN**

**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984 (FEL Y DIWYGIWYD)**
**ADRAN 14 (1)(b)**

**LLWYBR TROED CYHOEDDUS RHIF 170 LLANTARNAM**

**GORCHYMYN GWAHARDD CERDDWYR DROS DRO 2023**

**HYSBYSIR** drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, trwy ymarfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y diwygiwyd), yn bwriadu gwneud Gorchymyn heb fod yn llai na saith niwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn a fyddai'n atal cerddwyr a beicwyr rhag teithio ar hyd Llwybr Cyhoeddus Rhif 170 tua 40m o'i gyffordd gydag Oakfield Road. Yna mae'r llwybr troed yn rhedeg i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol yn gyffredinol am tua 200 metr i'w gyffordd gyda Llantarnam Road ac yn cael ei ddangos gyda llinell ddu drwchus o A i B ar Fap y Gorchymyn.

Mae yna lwybrau amgen ar gael at ddefnydd y cyhoedd.

Mae'r gwaharddiad hwn yn ofynnol oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd, gan fod gwaith yn angenrheidiol i wella ffens y ffin yn Rhandiroedd Lightwood, ac am na fyddai'n ddiogel i gerddwyr na beicwyr ddefnyddio'r llwybr troed tra bod y gwaith ar y gweill.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig ar waith ar 11 Medi 2023 ac yn parhau am gyfnod o 6 mis neu hyd nes bod y gwaith wedi cael ei gwblhau, pa un bynnag sydd gynharaf.

Dyddiad: 4 Medi 2023

*Mae'r Hysbysiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd*

Stephen Vickers, Prif Weithredwr, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl NP4 6YB

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN**

**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984 (FEL Y DIWYGIWYD)**
**ADRAN 14 (1)(b)**

**LLWYBR TROED CYHOEDDUS RHIF 170 LLANTARNAM**

**GORCHYMYN GWAHARDD CERDDWYR DROS DRO 2023**

**HYSBYSIR** drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, trwy ymarfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y diwygiwyd), wedi gwneud Gorchymyn a fydd yn atal cerddwyr a beicwyr rhag teithio ar hyd Llwybr Cyhoeddus Rhif 170 tua 40m o'i gyffordd gydag Oakfield Road. Yna mae'r llwybr troed yn rhedeg i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol yn gyffredinol am tua 200 metr i'w gyffordd gyda Llantarnam Road ac yn cael ei ddangos gyda llinell ddu drwchus o A i B ar Fap y Gorchymyn.

Bydd y Gorchymyn ar waith ar 11 Medi 2023 ac yn parhau am gyfnod o 6 mis neu hyd nes bod y gwaith wedi cael ei gwblhau, pa un bynnag sydd gynharaf.

Dyddiad: 11 Medi 2023

*Mae'r Hysbysiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd*

Stephen Vickers, Prif Weithredwr, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl NP4 6YB